“Lluniwch gerdd a seiniwch gân
Er budd yr henfro gyfan”

# Neuadd Gymunedol Maenclochog

Cynhelir y **78ain**

# EISTEDDFOD GADEIRIOL

(Dan nawdd Eglwysi Tabernacl a Llandeilo)

## Dydd Llun 4ydd o Fai 2026

## i ddechrau am 11 o`r gloch

(Ni fydd y cystadlaethau agored yn dechrau tan 12 o’r gloch
Ni fydd y cystadlaethau i rai dros 12 oed yn
dechrau cyn 2 o’r gloch)

Llywydd Anrhydeddus: Y Prifardd EIRWYN GEORGE
Llywydd y Dydd : MRS RHINEDD WILLIAMS, Llanddarog

BEIRNIAID
Cerdd: MISS RHIANNON LEWIS, Cwmann
Llefaru a Llên: MRS IVOREEN WILLIAMS, Rhydaman
Llên y plant: ANN MORRIS, Maenclochog
Arlunio/Ffotograffiaeth: ALUN IFANS, Maenclochog
Cyfeilydd: MRS HEFINA JONES ALCM, Llangynin
07891 593449 / hefinajones73@gmail.com
Mynediad: Oedolion - £5.00. Plant dan 16 - am ddim

YSGRIFENYDDION
Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, SA66 7XN
Ffôn: 07837 512984
Carol Nicholas, 1 Castle View, Arberth
07971 073864

BYDD LLUNIAETH AR WERTH

## CYSTADLAETHAU LLEOL - Dyddiad Cau 20 Ebrill, 2026

*Cyfyngedig i blant ysgolion Beca, Brynconin, Casmael, Llanychllwydog, Maenclochog a Bro Preseli*

| | 1af | 2il | 3ydd |
|---|---|---|---|
| Disgyblion blwyddyn 2 ac iau: Barddoniaeth - 'Bwyd' | Tarian Her | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 3 a 4: Barddoniaeth - 'Lliwiau' | Tarian Her | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 5 a 6: Barddoniaeth - 'Teithio' | Tarian Her | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 2 ac iau: Gwaith Celf - Testun: 'Breuddwydion' | Tarian | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 3 a 4: Gwaith Celf - Testun: 'Breuddwydion' | Tarian | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 5 a 6: Gwaith Celf - Testun: 'Breuddwydion' | Tarian | Tarian | Tarian |

## FFOTOGRAFFIAETH i Blant yn unig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Agored i blant ysgol gynradd - Testun: 'Breuddwydion' (2 gais yn unig) | Tarian | Tarian | Tarian |
| Agored i blant ysgol uwchradd - Testun: 'Breuddwydion' (2 gais yn unig) | £12 | £7 | £4 |

## LLWYFAN

*Cyfyngedig i blant ysgolion Beca, Brynconin, Casmael, Llanychllwydog, Maenclochog a Bro Preseli.*

***(Gweler amod 14 ar gyfer y cystadlaethau yma)***

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | Unawd i blant dan 7 oed. Cwpan Her - (Rhoddedig gan blant y Parchg a Mrs Moelwyn Daniel) | Cwpan Her | Tarian | Tarian |
| **2.** | Llefaru i blant dan 7 oed. Cwpan Her - (Rhoddedig gan blant y Parchg a Mrs Moelwyn Daniel) | Cwpan Her | Tarian | Tarian |
| **3.** | Unawd i blant dan 10 oed sydd heb ennill o`r blaen. | Tarian Her | Tarian | Tarian |
| **4.** | Llefaru i blant dan 10 oed sydd heb ennill o'r blaen. | Tarian Her | Tarian | Tarian |

## AGORED

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **5.** | Unawd dan 7 oed | £10 | £5 | £3 |
| **6.** | Llefaru dan 7 oed | £10 | £5 | £3 |
| **7.** | Unawd 7-9 oed | £10 | £5 | £3 |
| **8.** | Llefaru 7-9 oed | £10 | £5 | £3 |
| **9.** | Unawd 10-dan12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **10.** | Llefaru 10-dan 12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **11.** | Llefaru i ddysgwyr dan 12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **12.** | Darllen o’r Ysgrythur dan 12 oed<br>(Darn **byr** o unrhyw un o’r Beiblau Lliw)<br>(Dim mwy na 3 munud) | Tarian Her a £20 | £5 | £3 |
| **13.** | Unawd Alaw Werin dan 12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **14.** | Canu Emyn dan 12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **15.** | Unawd ar unrhyw offeryn cerdd i blant dan 12 oed (dim mwy na 3 munud o hyd) **(Gweler amod 8)** | £10 | £5 | £3 |
| **16.** | Parti Canu (o leiaf 4 unigolion) dan 18 oed | £20 | £15 | |
| **17.** | Unawd 12-16 oed **(Gweler amod 8)** | £12 | £7 | £4 |
| **18.** | Llefaru 12-16 oed | £12 | £7 | £4 |
| **19.** | Unawd Cerdd Dant dan 16 oed **(Gweler amod 8)** | £12 | £7 | £4 |
| **20.** | Deuawd dan 16 oed | £12 | £7 | £4 |
| **21.** | Unawd Alaw Werin 12-18 oed | £12 | £7 | £4 |
| **22.** | Parti llefaru dan 18 oed | £20 | £15 | |
| **23.** | Canu Emyn 12-18 oed | £12 | £7 | £4 |
| **24.** | Unawd ar unrhyw offeryn cerdd 12-18 oed, (dim mwy na 5 munud o hyd) **(Gweler amod 8)** | £12 | £7 | £4 |
| **25.** | Unawd allan o unrhyw Sioe Gerdd, dros 15 oed **(Gweler amod 8)** | £40 | £25 | £15 |
| **26.** | Darn heb atalnodi | £12 | £7 | £4 |
| **27.** | Cystadleuaeth Perfformio Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2025-2026:<br>Mewn Cymeriad<br>*Cyfle i unigolyn rhwng 16-25 oed i bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad. Perfformiad hyd at 5 munud wedi'i selio ar ddewis o 5 sgript ar gael o wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.*<br>*www.steddfota.cymru* | £30 | £15 | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **28.** | Sgen Ti Dalent | £30 | £15 | £10 |
| **29.** | Unawd yr Hen Ganiadau dros 15 oed **(Gweler amod 8)** | £15 | £10 | £5 |
| **30.** | Her Adroddiad dros 15 oed | Cwpan Her a £40 | £25 | £15 |
| **31.** | Her Unawd dros 15 oed **(Gweler amod 8)** | Cwpan Her a £40 | £25 | £15 |
| **32.** | Parti o oedolion i lafarganu detholiad o bennod 'Y Pwnc' | £20 | - | - |
| **33.** | Côr heb fod o dan 16 o leisiau a thros 15 oed i ganu **dau** ddarn cyferbyniol. Cynhelir am 7.30 yr hwyr **(Gweler amod 13)** | £500 | £250 | - |
| **34.** | Parti cydadrodd - agored | £20 | £10 | - |
| **35.** | Pedwarawd - agored | £20 | £10 | - |
| **36.** | Canu Emyn dros 18 oed **(Gweler amod 8)** | £20 | £10 | £5 |
| **37.** | Cyfansoddi tôn ar gyfer y geiriau isod **(Gweler amod 7)** | Tlws Coffa Penfro Rowlands | - | - |

## ***Tarian Nest***

*Rhoddir y darian her uchod ynghyd â £20.00 er cof am Nest Llwyd, i'r cystadleuydd mwyaf addawol dan 12 oed.*

## ***Tlws Roger Hill***

*Rhoddir y tlws her uchod gan staff Parc Cenedlaethol safle Cilrhedyn er cof am gydweithwr, i offerynnwr disgleiriaf yr Eisteddfod dan 18 oed.*

## PENTAGON

Daeth Bachgen bach i Fethle'm
ag undod yn ei wedd,
ac uwch ei lety alltud
fe ffrwydrodd seren hedd:
Ac Ef yw'r unig allu
all achub daear Duw
rhag rhyfel byd diystyr
a thranc y ddynol-ryw.

_Cytgan Gobaith_

Ond eto fe ddaw'r Iesu
i lwyddo'i rym, â'i ras,
â'n dwyn i gymun sanctaidd
sy'n gwrthod breintiau bras:
am hynny boed ein camau
yn gymod teg ar waith;
Ei gyfraith inni'n Gariad,
a'i Groes o hyd yn daith.

Daeth Bachgen bach i Fethle'm
a mwynder yn ei lais,
ac er holl arfau Herod
agorodd ffordd ddi-drais:
A hon yw dwylô'n Iesu
â'u cytgord, er mor ddrud:
Ewyllys da i ddynion
Tangnefedd i'r holl fyd.

_Cytgan Gobaith_

Daeth Bachgen bach i Fethle'm
a iawnder yn ei law,
ac ynddi nid oedd undim
a allai beri braw:
Yn hon mae nawdd allweddol
i gario beichiau'r gwan
gan dderbyn byth o'i olud
sydd inni, ym mhob man.

_Cytgan Gobaith_

Daeth Bachgen bach i Fethle'm
a theyrnas wrth ei droed,
ac ynddi caed gelynion
ynghyd, yn cadw'r oed:
Mae'r llewpart brith â'r afr,
yn gorwedd yn gytûn,
a'r llew a'r oen gwanwynol
yn pori porfa Un.

_Cytgan Gobaith_

Gerald Jones
Llangennech

## LLENYDDIAETH

| | | |
|---|---|---|
| **38.** | Cystadleuaeth y Gadair.<br>Cerdd gaeth neu rydd (neu ddilyniant o gerddi) heb fod dros 100 llinell ar **un** o'r testunau canlynol:<br>(1) Gorwel / Gorwelion; (2) Cynhaeaf; | Cadair fechan a £50 (rhoddir Y Gadair gan Ian Eynon er cof am Glyn a Rose Eynon) |
| **39.** | Portread o bentref heb fod dros 2000 o eiriau. | Tlws Coffa E Llwyd Williams |
| **40.** | Tlws y Llenor Ifanc (oed ysgol uwchradd).<br>Darn o lenyddiaeth mewn unrhyw gyfrwng addas i`w gynnwys mewn ffolio ysgol.<br>**(Gweler amod 9)** | Cadair fechan er cof am Mandy Williams a thocyn llyfr £25 |
| **41.** | Emyn ar y thema 'Dod Ynghyd' | Tlws |
| **42.** | Erthygl addas i'w chyhoeddi yn mhapur bro heb fod dros 750 o eiriau. | Tocyn llyfr £25.<br>Rhoddedig gan _Clebran_<br>Papur Bro`r Preseli. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **43.** | Telyneg neu soned:<br>(1) Castell; (2) Cyflafan. | £15 | £10 |
| **44.** | Englyn - 'Taten' | £15 | £10 |
| **45.** | Brawddeg: C-A-R-T-R-E-F | £15 | £10 |
| **46.** | Limrig yn cynnwys y gair:<br>*'Reform'* | £10 | £5 |
| **47.** | **Gwobr Goffa Waldo Williams**<br>Dewiswch eich hoff gerdd o waith Waldo ac esboniwch eich hoffter ohoni o fewn 500 o eiriau | £25 | £10 |
| **48.** | Dysgwyr (oedolion) sydd heb fod yn dysgu Cymraeg am fwy na 4 blynedd. (Mynediad / Sylfaen)<br>Ysgrifennu hyd at 200 o eiriau ar **un** o'r testunau canlynol:<br>(1) Sgwrs ar daith gerdded<br>(2) Gwyliau<br>*Dim mwy na 2 gynnig* | Tocyn llyfr £15 | Tocyn llyfr £10 |
| **49.** | Dysgwyr (oedolion) sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg am dros 4 blynedd. (Canolradd / Uwch)<br>Ysgrifennu hyd at 250 o eiriau ar **un** o'r testunau canlynol:<br>(1) Llythyr at ffrind<br>(2) Adolygiad o ffilm<br>*Dim mwy na 2 gynnig* | Tocyn llyfr £15 | Tocyn llyfr £10 |

## ***Cwpan Coffa Mr a Mrs Titus Lewis***

*Rhoddir y cwpan uchod i`r sawl a ddyfernir yn gystadleuydd disgleiriaf yr Eisteddfod (Canu neu Lefaru), i`w ddal am flwyddyn yn unig.*

***Bydd yr enillydd yn derbyn £40 hefyd i`w gynorthwyo gyda`i wersi***

# NODDWYR 2025

**Cyfraniadau wrth Aelodau Tabernacl**
Eirwyn a Maureen George
Parch Ken ac Eirianwen Thomas
Lewys ac Aneurin Dafydd
Lena Grug James
Sheila ac Islwyn Vaughan
Wendy Rowlands
Glyn ac Angie John
Hafwen ac Andy Thomas
Eleri Hunt
Cei Nicholas
Carol Nicholas
Non Roberts
Pam Jones
Hefin Wyn
Buddug a Geraint Harries
Berwyn a Marina Williams
Eirwen Gibby
Reg ac Eiry Phillips

**Cyfraniadau wrth Aelodau Llandeilo**
Teulu Llwyncelyn
Ian ac Ann Lewis
Gareth Edwards
Phil a Carolyn Lloyd
Eifion Evans
Eirwyn Evans
Wendy Edwards
Brenda Williams
Dennis a Gina Lewis
Caryl James
Amanda Quigley
Delyth Roblin
Tomos a Gwennan
Wyn a Catrin Williams

## Cefnogwyr Eraill

Llywydd y dydd Marilyn Lewis
Cyngor Cymuned Maenclochog
Cyngor Cymuned Mynachlogddu
Cymdeithas Waldo
Clychau Clochog
Clebran
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Siop Sian
Sarah Eynon
Ian Eynon
Aerona Edwards
Awen Evans
Criw Harmo-Ni
Côr Hendy Gwyn ar Daf

## ARWEINYDDION

Mr Edryd Eynon, Mrs Delun Horton, Mrs Caryl James,
Mrs Naomi Nicholas-Jones, Miss Nia Lloyd, Mr Hefin Wyn

## SWYDDOGION Y PWYLLGOR

*Cadeirydd:* Ms Brenda Williams, Llysyfrân
*Trysorydd:* Mrs Non Roberts, Maenclochog
*Is-Drysorydd:* Mrs Wendy Edwards, Maenclochog

## AMODAU

1. Bydd barn y pwyllgor yn derfynol a bydd gan y beirniaid hawl i atal neu rannu gwobrau.
2. Ni chaniateir cystadlu ond yn y Gymraeg.
3. Y cyfansoddiadau i fod yn waith gwreiddiol yr ymgeiswyr a heb eu cyhoeddi.
4. Y cyfansoddiadau i fod mewn copi caled i'r ysgrifenyddes Llên Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, Clunderwen, SA66 7XN erbyn 3 Ebrill 2026. Rhodder ffugenw yn unig wrth y gwaith, gan amgáu enw, cyfeiriad llawn a rhif ffôn mewn amlen dan sêl.
5. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.
6. Bydd hawl gan y pwyllgor i newid trefn y cystadlaethau ar y llwyfan os bydd angen.
7. Cyfansoddiadau y gystadleuaeth Rhif 36 i`w cyflwyno ar bapur.
8. Rhaid anfon copi o unawdau cystadlaethau rhif 15, 17, 19, 24, 25, 29, 31 a 36 i`r cyfeilydd ymlaen llaw.
9. Ni chaniateir mwy na **dwy** ymgais gan yr un cystadleuydd.
10. Bydd hawlfraint y dôn fuddugol (Rhif 36) yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod.
11. Bydd hawlfraint yr emyn buddugol (Rhif 40) yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod.
12. Atelir pris tocyn oni bydd y buddugol neu gynrychiolydd yn bresennol.
13. Disgwylir i aelodau corau sy'n cystadlu dalu tâl mynediad o £1.00 y pen. Byddai'n hwyluso pethau pe bai modd gwneud hynny ymlaen llaw trwy anfon siec yn daladwy i Eisteddfod Maenclochog at yr ysgrifenyddes Llên. Gweler ei chyfeiriad yn pwynt 4 uchod.
14. Disgwylir i'r plant sy'n cystadlu yn y cystadlaethau lleol ac agored i ganu / adrodd dau ddarn gwahanol.

*Dymuna`r Pwyllgor ddiolch i*
*'Ymddiriedolaeth James, Pantyfedwen', am y swm o £500 tuag at yr Eisteddfod.*
*Diolch hefyd i bawb sy`n cyfrannu at lwyddiant yr Eisteddfod yn flynyddol.*

## Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

**Eisteddfodau Sir Benfro - 2026**
Eisteddfod Brynberian - 21 Chwefror - Ceri Davies, (01239 891296)
Eisteddfod Crymych - 28 Chwefror - Ann Davies, (01994 419268) /
Awen Evans, (01239 891637)
Eisteddfod Llandudoch - 16 Mai - Terwyn Tomos, (01239 612928 / 07972 033183)

*Er mwyn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae'n ddyletswydd i sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost) yn cael ei gadw'n gyfrinachol.*
*Mae hyn yn cynnwys cystadleuwyr, beirniaid, cyfeilyddion a chyfranwyr.*
*Os ydych chi'n dymuno i ni ddileu eich manylion o'n cofnodion, cysylltwch.*